Hyfforddiant Teithio Call

Datblygu Hyrwyddwyr ar gyfer y Dyfodol

Consortiwm Cludiant Integredig De-Orllewin Cymru
South-West Wales Integrated Transport Consortium
SWWITCH

TraCC
Trafnidiaeth Canolbarth Cymru
Mid Wales Transportation

Taith

Sewta
Moving People Yn Symud Pobl

Ariennir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Funded by
Welsh Assembly Government

yn partneriaeth gyda

www.TravelineCymru.info
0871 200 22 33 Gwybodaeth teithio didrafferth
Trouble free travel info

YMUNWCH Â'R MUDIAD
sustrans
JOIN THE MOVEMENT

MISC1055

Hyfforddiant Teithio Call

Darperir hyfforddiant Teithio Call gan eich Consortiwm Cludiant Rhanbarthol, Traveline Cymru, a Sustrans. Bydd y rhai sy'n mynychu'r hyfforddiant yn derbyn llawlyfr hyfforddiant Teithio Call i'w gadw, diweddariadau yn y dyfodol pan fo gwybodaeth yn newid a chymorth parhaus gan y Cydlynwyr Cynlluniau Teithio Rhanbarthol perthnasol a'u partneriaid.

Amcanion

Dyluniwyd hyfforddiant Teithio Call i roi'r offer a'r sgiliau i alluogi hyrwyddwyr i weithredu fel y prif bwynt cyswllt yn eich sefydliad/cymuned ac i ledaenu gwybodaeth am drafnidiaeth gynaliadwy i aelodau eraill o staff, myfyrwyr, gwirfoddolwyr, ymwelwyr ar aelodau o'r gymuned.

O ganlyniad gall unigolion wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ynghylch y modd y maent yn teithio i'r gwaith, coleg neu ar gyfer hamddena.

Mae hyfforddiant Teithio Call yn ystyried yr angen i well hygyrchedd i bawb, yn cynnwys grwpiau dan anfantais, ac adlewyrchir hynny yn y pecyn hyfforddiant.

Nodau

Nod yr hyfforddiant yw dysgu hyfforddeion sut a lle i gael y wybodaeth ganlynol.

- Siop un stop Traveline Cymru yn rhoi gwybodaeth am deithio
- Llwybrau beicio/cerdded lleol ar-lein a phecyn cymorth Teithio Byw Sustrans
- Cynlluniau rhannu car i ddod o hyd i bartner addas i rannu car
- Cynlluniau ceir cymunedol lleol – gwybodaeth gan awdurdod lleol

Mae hyfforddiant ar gael ar gyfer tri math o sefydliad -

- Sector Busnes Cyhoeddus/Preifat
- Cymuned
- Addysg

Mae'r hyfforddiant ar gael i unrhyw un yn eich mudiad, cymuned neu sefydliad addysg y credwch fyddai'n gennad da dros drafnidiaeth gynaliadwy, ac sydd mewn sefyllfa dda i ddarparu gwybodaeth i eraill. Gallai hyn gynnwys:

- Wynebu'r cyhoedd e.e. staff derbynfa, swyddogion meysydd parcio, staff canolfannau galwadau
- Arweinwyr tîm
- Adran ystadau
- Adnoddau Dynol
- Staff cyfleusterau
- Cynrychiolydd grŵp Iechyd a Lles
- Aelod o grŵp llywio cynlluniau teithio
- Cynrychiolwyr undeb myfyrwyr
- Cynrychiolydd gwasanaethau i fyfyrwyr
- Grwpiau a chynrychiolwyr cymunedol
- Selogion beicio/Grwpiau Defnyddwyr Beiciau (BUG)
- Rhanwyr ceir

Y cyflogwr

Mae sesiwn hyfforddiant Teithio Call yn y gweithle yn darparu ar gyfer 10-12 o bobl ac yn para oddeutu 1½ awr. Dyma gyfle heb ei ail i rymuso eich staff a datblygu hyrwyddwyr teithio yn y gweithle drwy roi'r siawns iddynt dderbyn gwybodaeth werthfawr a dysgu'r sgiliau i ddarparu dewisiadau teithio personol ac sy'n seiliedig ar wybodaeth.

Mae cyfle hefyd i gyflwyno'r hyfforddiant i grwpiau o weithleoedd gyda'i gilydd fel sesiwn 'Hyfforddi'r Hyfforddwr'. Yn y sefyllfa hon hyfforddir dau neu dri o bob sefydliad sy'n mynd â'r wybodaeth yn ôl i'w sefydliadau i'w rhannu gyda'r staff. Er enghraifft byddai hyn yn addas lle mae sefydliadau yn dod ynghyd mewn fforymau teithio gwyrdd, neu lle mae nifer o sefydliadau wedi'u lleoli mewn un parc busnes.

Gall staff hyfforddedig ledaenu adnoddau sy'n gysylltiedig â theithio ymhlith

cydweithwyr ac ymgorffori gwybodaeth ddefnyddiol i swyddogaethau busnes megis AD, e.e. rhoi gwahanol ddewisiadau teithio i'r gweithle i weithwyr newydd.

Mae creu hyrwyddwyr teithio yn eich sefydliad hefyd yn cyfrannu at ddatblygu gweithgareddau a thargedau cynllun teithio, a rhoi dogfen cynllun teithio i'r gweithle ar waith. Mae cynllun teithio yn galw am adnoddau dynol yn ogystal ag adnoddau ffisegol megis mannau storio beiciau a lleiniau parcio ar gyfer rhanwyr ceir. Gallai hefyd gyfrannu at ennill gwobr safon iechyd gorfforaethol.

Diben yr hyfforddiant yw codi ymwybyddiaeth ymhlith rheolwyr a'u staff o'r manteision cadarnhaol o ddewis dulliau teithio cynaliadwy yn cynnwys lleihau ôl troed carbon sefydliadau, staff iach yn cael budd o deithio byw, lleihau milltiroedd busnes a lleihau problemau parcio ceir.

Y Gymuned

Mae sesiwn hyfforddiant i gymuned yn para hanner diwrnod a gall ddarparu ar gyfer 12-20 o bobl mewn man lleol. Gall unrhyw aelod o'r gymuned ddod i'r sesiwn a dod yn hyrwyddwr teithio cymunedol.

Gall hyfforddiant hyrwyddwr teithio fod o fudd i gymuned mewn sawl ffordd, er enghraifft, y gwahanol ddewisiadau teithio sydd ar gael iddynt yn lleol.

Gall grwpiau cymunedol, busnesau ac ysgolion dderbyn hyfforddiant Teithio Call gyda golwg ar annog eraill, yn cynnwys trigolion, i ystyried sut y maent yn teithio yn eu cymunedau eu hunain.

Y Sefydliadau Addysg

Gall y sesiwn hon sy'n para 1½ awr ddarparu ar gyfer 10-12 o bobl ac mae'n fuddiol i brifysgolion, colegau ac ysgolion gan ei bod nid yn unig yn cynnwys staff, ond myfyrwyr, disgyblion a rhieni hefyd.

Fel cyflogwyr gall sefydliad addysg enwebu staff i dderbyn yr hyfforddiant a datblygu hyrwyddwyr gweithle sy'n gallu darparu gwybodaeth am drafnidiaeth gynaliadwy i'w cydweithwyr, myfyrwyr, disgyblion a rhieni.

Drwy ddewis dulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy ar gyfer teithiau i'r ysgol gall rheini gyfrannu at leihau tagfeydd y tu allan i'r ysgol a chreu amgylchedd mwy diogel.

Yn yr hyfforddiant cyflwynir gwybodaeth werthfawr ynghylch sut i weithredu bws cerdded a lleoli llwybrau beicio diogel mewn cydweithrediad â swyddogion prosiectau Llwybrau Diogel i'r Ysgol a Chymunedau.

Ar gampws prifysgolion a cholegau gall dewisiadau teithio call megis rhannu ceir, trafnidiaeth gyhoeddus a beicio a cherdded, liniaru tagfeydd gan arbed costau i fyfyrwyr a staff.

Pa sefydliadau sydd eisoes wedi derbyn Hyfforddiant Teithio Call?

- Bwrdd Iechyd Lleol Abertawe Bro Morgannwg
- Canolfan Alwadau Apwyntiadau Uniongyrchol (Abertawe Bro Morgannwg)
- Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda
- Cyngor Iechyd Cymunedol (Hywel Dda)
- Cymuned Glanyfferi
- Gwasanaeth Ambiwlans Cymru (Sir Gaerfyrddin)
- Coleg Sir Gâr
- Coleg Castell-nedd
- Virgin Media (Staff Manpower)
- DVLA (llun isod)

- HSBC (Abertawe)
- Aelodau Fforwm WWACC (Cymdeithas Canolfannau Galw Gorllewin Cymru)
- Gyrfa Cymru
- Canolfan Byd Gwaith
- Workways (Castell-nedd Port Talbot)

Llawlyfr Hyfforddeion Teithio Call

Yn ddarpariaeth gynhwysfawr mae pob hyfforddai sy'n derbyn hyfforddiant Teithio Call yn cael y llawlyfr ar gyfer ei ddiweddaru a'i ddefnyddio yn y dyfodol. Mae'n cynnwys:

- Taflen gyfeirio hwylus a chyfeiriadau gwefannau defnyddiol i gynorthwyo cynllunio ar-lein
- Cynlluniau rhannu ceir – Sut i gofrestru a chael partner rhannu car
- Traveline Cymru - i gael pob gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus
- Sustrans – i gael gwybodaeth am fapio a theithio byw
- Manylion cyswllt partner fudiadau yn cynnwys Traveline Cymru a Sustrans
- Cyfeiriadau gwefannau awdurdodau lleol ar gyfer cynlluniau rhannu ceir lleol a gwybodaeth am drafnidiaeth a theithio lleol
- Codau unigryw safleoedd bws a chodau post i helpu wrth gynllunio teithiau ar-lein

Astudiaethau Achos

Bwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg

Darparwyd hyfforddiant Teithio Call i staff Canolfan Alwadau Apwyntiadau Uniongyrchol Bwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg i gyd-fynd â phrosiect yr oedd y Bwrdd yn gyfrifol amdano yn sgil ei ran yn Ymddiriedolaeth Partneriaeth Her Iechyd Abertawe.

Clustnodwyd staff linell flaen y ganolfan alwadau yn grŵp oedd yn derbyn ac ateb cwestiynau ac ymholiadau yn rheolaidd ac yn darparu gwybodaeth am deithio yn uniongyrchol i gleifion yn mynd isafleoedd ysbytai. Penderfynwyd y byddai'n fuddiol i'r staff hyn gael mwy o wybodaeth am ddewisiadau teithio drwy hyfforddiant Teithio Call.

Wythnos yr Amgylchedd GIG 2009thio Call.

Roedd yr hyfforddiant yn cynnwys cyflwyniadau ar gerdded a beicio, rhannu ceir a gwybodaeth am gynllun trafnidiaeth gymunedol ar gyfer ardaloedd Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Dilynwyd hynny gan gyflwyniad ar gael gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus drwy Traveline Cymru.

Wedi gwerthuso'r hyfforddiant gwelwyd bod y math hwn o hyfforddiant teilwredig yn fuddiol iawn i'r staff a nododd eu bod bellach yn gallu perchenogi galwadau drwy ddarparu gwybodaeth a chyngor mwy personol i gleifion yn teithio i apwyntiadau. Nododd 100% o'r tîm mai prin oedd eu gwybodaeth cyn yr hyfforddiant ond bellach roeddent yn teimlo fod ganddynt nid yn unig yr offer i wneud y swydd ond hefyd y sgiliau a'r wybodaeth i gyfleu gwybodaeth i eraill.

Canlyniad cadarnhaol yr hyfforddiant yw yr ychwanegwyd dewis o negeseuon awtomatig sy'n caniatáu galwyr i ddewis gwybodaeth ynghylch sut i fynd i ysbytai drwy ddefnyddio dewisiadau Teithio Call.

Yn sgil llwyddiant yr hyfforddiant hwn ysgogwyd Bwrdd Iechyd Hywel Dda i ddarparu hyfforddiant ar gyfer ei staff ym mhob un o'i brif ysbytai aciwt.

HSBC Abertawe

Mae gan HSBC linell ffôn benodol i dderbyn galwadau gan staff yn hysbysu am salwch ac yn gofyn am wyliau brys. Bellach mae'r llinell hon yn gallu darparu gwybodaeth teithio call, yn neilltuol pan fo gweithiwr yn nodi mai car wedi torri i lawr sy'n eu hatal rhag dod i'r gwaith.

Defnyddiwyd canlyniadau cadarnhaol hyfforddiant Teithio Call yn dystiolaeth i ennill gwobr Safon Iechyd Gorfforaethol.

Defnyddir hyrwyddwyr teithio hyfforddedig i ddarparu gwybodaeth am deithio call yn y sefydliad yn rhan o'r rhaglen gyfarwyddo i roi gwybodaeth deithio bersonol i bob newydd ddyfodiad.

Canolfan Byd Gwaith

Dywed staff hyfforddedig Canolfan Byd Gwaith bod yr hyfforddiant wedi eu gwneud yn llawer mwy hyderus wrth roi cyngor teithio personol i geiswyr gwaith. Bellach mae ganddynt fwy o wybodaeth, yn gwybod lle i chwilio am wybodaeth a'r adnoddau hwylus i'w defnyddio pan fo angen gwybodaeth ychwanegol.

Mae Canolfan Byd Gwaith yn cydnabod hefyd y gellir cynnig hyfforddiant Teithio Call a'i addasu ar gyfer ceiswyr swyddi pan fo cyflogwyr newydd yn symud i'r ardal.

Coleg Castell-nedd- Campws Dŵr y felin

Roedd gan Goleg Castell-nedd gynllun i roi hyfforddiant galwedigaethol i unigolion ag anghenion arbennig a darparwyd hyfforddiant Teithio Call i 20 myfyriwr nad oeddent erioed wedi defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

Darparwyd hyfforddiant ymarferol iddynt ynghyd â chyflwyniadau gan y Cydlynydd Cynlluniau Teithio, Traveline Cymru a swyddog y Bartneriaeth Rheilffyrdd Cymunedol. O ganlyniad llwyddodd pob un o'r myfyrwyr i deithio ar fws a thrên, yng nghwmni unigolyn arall, gan ddefnyddio'r wybodaeth a roddwyd yn yr hyfforddiant i gynllunio eu taith.

Cwestiynau Cyffredin

1. *Sut allaf ddwyn perswâd ar fy nghyflogwr/bwrdd addysg i geisio'r hyfforddiant?*

   Mae nifer o fanteision i ddatblygu hyrwyddwyr teithio yn y gweithle ac mewn sefydliadau addysg yn cynnwys gwella mynediad ar gyfer staff a myfyrwyr, lleihau tagfeydd ar safle a gwella graddfeydd presenoldeb. Bydd tynnu sylw at y buddiannau, ynghyd â mesurau hyrwyddo posib yn cynnwys trafnidiaeth gyhoeddus, rhannu ceir a beicio a cherdded, yn annog eich cyflogwr/bwrdd i drefnu hyfforddiant Teithio Call ac ymwneud â gweithgareddau cynlluniau teithio. Hefyd gall hyrwyddwyr teithio gyfrannu at ddatblygu cynllun teithio busnesau/cymunedau drwy berchenogi meysydd perthnasol.

2. *Sut bydd hyfforddiant Teithio Call yn bodloni cyfrifoldebau cymdeithasol corfforaethol fy sefydliad?*

   Mae trefnu Teithio Call ar gyfer eich staff yn fodd cynhwysol o gyfathrebu gyda'ch staff a bodloni'r cyfrifoldebau cymdeithasol corfforaethol penodol. Hefyd gall hyfforddiant Teithio Call, yn rhan o ddogfen cynllun teithio y sefydliad, ddarparu tystiolaeth sy'n ofynnol ar gyfer gwobrwyon a safonau megis:

   - Safon Iechyd Gorfforaethol – e.e. Teithio Byw a rhannu ceir
   - Buddsoddwyr mewn Pobl – Cyfathrebu gyda gweithwyr
   - Y Ddraig Werdd / ISO140001 – Yr effaith amgylcheddol a lleihau co2

3. *Alla' i roi Hyrwyddwr Teithio ar fy CV?*

   Gallwch. Caiff gwybodaeth am ddewisiadau teithio call a dealltwriaeth ohonynt eu hystyried yn sgiliau trosglwyddadwy i'w defnyddio mewn unrhyw yrfa.

4. *Rwy'n gweithio i fusnes bach – sut alla'i gael hyfforddiant?*

   Mae'n bosib bod busnesau neu grwpiau cymunedol eraill yn eich ardal a fyddai'n hoffi derbyn hyfforddiant Teithio Call hefyd. Dyma ffordd dda o weithio gyda'ch cymdogion nid yn unig i ddatblygu hyrwyddwyr teithio ond hefyd i fynd i'r afael â phroblemau cyffredin sy'n effeithio'r ardal. Profwyd fod gweithio mewn partneriaeth yn fodd i oresgyn problemau o'r fath a gwella dewisiadau teithio.

4. *Faint yw'r gost?*

   Mae ar gael AM DDIM. Cyllidir Cydlynwyr Cynlluniau Teithio Rhanbarthol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac felly mae hyfforddiant Teithio Call yn cael ei ddarparu yn ddi-dâl.

5. *Sut wyf yn trefnu dyddiad hyfforddiant?*

   Os dymunwch drefnu hyfforddiant Teithio Call ar gyfer eich sefydliad neu gymuned cysylltwch â'ch Cydlynydd Cynlluniau Teithio Rhanbarthol. Gweler y manylion cyswllt yng nghefn y llyfryn hwn.

Enw Cyswllt	Rhanbarth	Rhif Ffôn	Cyfeiriad e-bost
Jayne Cornelius	SWWITCH	Ffôn: 01792 637644 Symudol: 07796 275711	jayne.cornelius@swansea.gov.uk
Nicola Thomas	SWWITCH	Ffôn: 01792 637644 Symudol: 07796 275691	nicola.thomas3@swansea.gov.uk
Meleri Edwards	TraCC	Ffôn: 01970 633432 Symudol: 07843 575653	meleri.edwards@powys.gov.uk
Jessica Pritchard	Taith	Ffôn: 01352 704544	jessica.pritchard@taith.gov.uk
Deborah Stux	SEWTA	Ffôn: 01633 463434 Symudol: 07826875790 Ffacs: 01633 463399	deborah.stux@capita.co.uk
Nicola Davies	SEWTA	Ffôn: 01633 463367 Symudol: 07826 875791	nicola.davies@capita.co.uk
Cysylltiadau Partneriaid:			
Georgina Harper	Sustrans	Ffôn: 02920 650602	Georgina.harper@sustrans.org.uk
Jo Foxall	Traveline Cymru	Ffôn: 02920 344593	general@travelinecymru.info